



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Mehefin 2015 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 June 2015 at 6.30pm
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**),
Dai Brabrook, Clive Davies, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Neal Jones, Catrin Miles,
Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, **bawb i gyfarfod cyntaf ei drydydd tymor fel Maer Tref Aberteifi. Roedd ganddo groeso cynnes i'r Cyng.** Shimazaki oedd wedi dychwelyd o'i wyliau yn ei famwlad yn Siapan. Llongyfarchwyd Clwb Pêl-droed Aberteifi ar eu campwaith yn ennill pum cwpan yn ystod y tymor – y tro cyntaf i hyn ddigwydd mewn hanes. Gofynnwyd i'r clercc anfon llythyr o gyfarchion oddi wrth y cyngor i'r Clwb.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the first meeting of his third term as Mayor of Cardigan. He warmly welcomed Cllr Shimazaki following his visit to his home-land in Japan. Cllr Adams-Lewis congratulated Cardigan Football Club on their excellent achievement during the past season, winning five trophies: the Bay Cup, the Costcutter League Division 1 Championship, the J. Emrys Morgan Cup, Cwpan Coffa Dai Dynamo Davies, and the Easter Monday League Cup. It should also be mentioned that the second team won the Reserves Cup, and the under 18s lifted the Costcutter League Youth Cup. The clerk was asked to forward a letter of congratulations to the Club for their astonishing season.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Llwyd Edwards (*anhwylus/unwell*),
Ken Edwards (*work/gwaith*), Richard Jones (*gwaith/work*), Mark Cole (*gwaith/work*).

3. Cyflwyniad: Awel Deg – “Prosiect i archwilio dichonoldeb gosod tyrbin gwynt ar Fferm yr Oernant”

Presentation: Awel Deg – “Exploring the feasibility of a wind turbine at Oernant Farm”.

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, **y ddau gynrychiolydd o Awel Deg Aberteifi i'r cyfarfod a gwahoddodd Ms Sarah Wright i ddechrau'i chyflwyniad. Rhoddodd gefndir cynhwysfawr i'r fenter a dywedodd mai'r nod yw cynorthwyo Aberteifi a'r cyffiniau i ddibynnu ar eu hynni eu hunain cymaint â phosib drwy greu prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Cyfrannwyd at y cyflwyniad hefyd gan Mr Peter Newland a dywedodd bod y cynllun ar gyfer tyrbin 500Kw gydag uchder i'r foth o 45m a 67m i flaen y llafn. Cyflwynir cais cynllunio i Gyngor Sir Ceredigion yn yr haf. Ychwanegwyd y gallai'r incwm o'r tyrbin helpu i ddatgloi ychydig o'r potensial hwnnw gan sicrhau mantais gymunedol i gynorthwyo prosiectau megis y pwll nofio sydd yn awr tan fygythiad oherwydd toriadau'r cyngor sir. Dosbarthwyd mapiau a diagramau defnyddiol i'r aelodau er gwybodaeth yn ystod y cyfarfod.**

Cynhelir ymwybyddiaeth o'r prosiect ar stondin wybodaeth tu allan i Neuadd y Dref ar foreau Sadwrn, 6 a 13 Mehefin o 10.00-12.00 canol dydd gyda chyfarfod yn Theatr Byd Bychan ar 10 Mehefin.

Yn dilyn sesiwn o amgylch y bwrdd, diolchodd y Dirprwy Faer i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad pwrpasol dros ben.

The Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed representatives of Awel Deg Aberteifi to the meeting and invited Ms Sarah Wright to commence the presentation. She gave a comprehensive background to the venture and stated that one of the aims was to help Cardigan and surrounding district become as self-reliant in energy as possible by creating community-owned renewable energy projects. Mr Peter Newland continued the presentation and stated that the plan for the Oernant Farm wind turbine would be for a 500Kw turbine with a height to hub of 45m, 67m to blade tip. A planning application will be submitted to Ceredigion County Council in the summer. It was stated that the area is blessed with huge

potential for renewable energy generation with the income from the project able to unlock some of the potential and provide a community gain for local community projects including the local swimming pool which has experienced considerable cuts in its funding from the county council. Informative diagrams and photographs were distributed for members' information.

An information stall will be displayed outside the Guildhall on Saturdays, 6 and 13 June, from 10.00am-12.00 noon with a meeting scheduled to be held at the Small World Theatre on 10 June.

Following a question and answer session, Cllr Davies thanked the Awel Deg Aberteifi representatives for their most useful presentation.

4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

<i>Cyng./Cllr John Adams-Lewis</i>	<i>Yr holl faterion cynllunio yn cynnwys eitem 3.</i> All planning matters including item 3.
<i>Cyng./Cllr Catrin Miles</i>	<i>Eitem/Item 3 (Pwll Nofio/Swimming Pool)</i>
<i>Cyng./Cllr Jane Roche</i>	<i>Cynllunio/Planning A150178</i>

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Mai.**

Confirmation of Minutes of 5 May Council Meeting.

Cynigiodd y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.

The minutes were proposed as correct by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

Tud. 995, eitem 13 [41]: Cynhaliwyd cyfarfod gydag ymddiriedolwyr Clwb Bowls Aberteifi ar 27 Mai. Cytunwyd bod cyfreithiwr y Clwb yn ysgrifennu at gyfreithiwr y cyngor ynglŷn ag amryw o faterion yn ymwneud ag adran 4.2. Cytunodd y ddwy garfan bod y geiriad oedd ym mhrydlesau 1966 a 1988 yn cael ei ail-adrodd yn y brydles newydd.

Page 995, item 13 [41]: A meeting was convened with trustees of the Cardigan Bowls Club on 27 May. It was agreed that the club's solicitor would correspond with the council's solicitor regarding the "Deed of surrender" and the "demised premises" elements of the lease under Section 4.2. Both parties agreed to revert to the previous clauses as shown in the 1966 and 1988 leases.

7. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer yn y cyfarfod i bob aelod. Apeliodd yntau i'r aelodau ymgynnull tu allan i Neuadd y Dref brynhawn Sul, 7 Mehefin am 1.45 o'r gloch cyn gorymdeithio tuag at Gapel y Tabernacl i'r Gwasanaeth Dinesig.

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting. He appealed to members to assemble outside the Guildhall at 1.45pm on Sunday, 7 June before proceeding to Tabernacl Chapel for the Civic Service.

8. **Cynllunio / Planning.**

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A150286	Catherine's Cottage, North Road	Retrospective planning permission for balcony	<i>Mae'r cyngor yn anghydweld â cheisiadau ôl-dremiol er nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cais.</i> The council is displeased with another retrospective application, but has no objection to the development.
A150287	Plot 3 Gotrel Estate	Erection of a dwelling	<i>Mae angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â phwyntiau godwyd gan wrthwynebydd.</i> More details are required in relation to points regarding the Local Development Plan raised by an objector.
A150178	Land at Quay Street and Market Lane	Variation of condition 1 of planning permission A030898 to extend time for commencement of development.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.

9. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/5/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A9	D/D	£238.33 (0.00)
9/5/15	<i>Cronfa'r Maer</i> / Mayor's Fund: <i>Cyfraniad Blynyddol</i> . Annual donation	D2	4112	£1,000.00 (0.00)
12/5/15	Menter Aberteifi: <i>Hurio Neuadd y Dref</i> / Hire of Guildhall	A9	4113	£45.00 (0.00)
14/5/15	Swallow Office Supplies: Suspension files, printer cartridge, slice binders, dividers	A17	4114	£63.28 (10.53)
11/5/15	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> . Simultaneous translation (7/4/15) (5/5/15) (12/5/15)	A18	4115	£119.40 (19.90) £98.40 (16.40) £56.40 (9.40)
7/5/15	Midshire: <i>Llungopïo</i> /Photocopying	A17	4116	£6.94 (1.38)
31/5/15	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> . Rent of Conference Room (7/4/15, 21/4/15, 28/4/15)	A7	4117	£90.00 (15.00)
6/5/15	Newsquest: <i>Hysbyseb Seremoni Sefydlu'r Maer</i> . Mayor Installation Ceremony advert	A10	4118	£111.67 (18.61)
20/5/15	Zurich: <i>Yswiriant y cyngor</i> /Council insurance (7/6/15 – 6/6/16)	A11	4119	£3,913.77 (0.00)
31/5/15	Mr Ken Griffiths (<i>Archwilydd Mewnol</i> /Internal Auditor): <i>Archwilio'r cyfrifon</i> /Auditing accounts (2014-15)	A13	4120	£300.00 (0.00)
31/5/15	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Mai/May</i>)	A19	4121	£321.30 (53.55)
2/6/15	Y Cyng. John Adams-Lewis (<i>Rhoddion y Maer</i> . Mayor's Donations)	D1	4122	£620.00 (0.00)
2/6/15	Y Cyng. John Adams-Lewis (<i>Lwfans y Maer</i> . Mayor's Allowance) (50%)	A1	4123	£1,600.00 (0.00)
2/6/15	Mr Richard Harman (<i>Brysgyllwr</i> /Mace Bearer)	A6	4124	£140.00 (0.00)
2/6/15	Mr John Harman (<i>Brysgyllwr</i> /Mace Bearer)	A6	4125	£140.00 (0.00)
12/5/15	David George Trem: <i>Blodau</i> /Flowers (<i>Sefydlu'r Maer</i> /Installation of Mayor)	A4	4126	£20.00 (0.00)
1/6/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> /Clerk's Salary (<i>Mai/May</i>)	A3	4127	£748.90 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.

CLlr Dai Brabrook proposed that the above bills be paid; this was seconded by CLlr Gwynfi Jenkins.

Derbyniadau/Receipts: 9/4/15 Lloyds Bank: *Llog y Banc*/Bank Interest £2.50
28/4/15 Cyngor Sir Ceredigion CC: *Praesept/Precept* £81,946.80

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y cyngor sir wedi cytuno dileu'r glirffordd ar Rodfa'r Felin gan osod llinellau melyn dwbl yno i atal cerbydau rhag parcio. Mae 750 o fodurwyr wedi eu dirwyo gan y Swyddogion Gorfodi Sifil yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd cwynion di-ri am nad oedd yr arwyddion yno yn glir. Bydd yr opsiwn newydd yma yn cael ei arbrofi am chwe mis cyn ei gadarnhau'n barhaol onibai bod gwrthwynebiad.
- (ii) Cynhelir Cyfarfod Blynyddol ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ceredigion a "Diogel yng Ngheredigion" a drefnir gan Ddiogelwch Cymunedol Ceredigion er mwyn cysylltu â'r cyhoedd, nos Fercher, 10 Mehefin ym Mhenmorfa, 7.00-9.00yh.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Roedd cylchoedd (*cycle-hoops*) wedi eu gosod ar Stryd Morgan ar gyfer beiciau – heb adael lle pasio i bobl mewn cadeiriau olwyn. Fe'u symudwyd yn syth gan Gyngor Sir Ceredigion fel bod mynediad dilys i'r anabl ar y palmant.

- (ii) Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Trafnidiaeth Aberteifi, dydd Iau, 28 Mai: Mae'r cyngor sir yn edrych ar arwyddion-A/celfi/eitemau eraill ar balmentydd y dref sy'n medru achosi anhawster i gerddwyr ac, yn benodol, rheiny mewn cadeiriau olwyn neu bobl yn gwthio pramiau neu gadeiriau gwthiol. Yn hytrach na danfon llythyr allan i siopau a busnesau'r dref, cytunwyd y byddai cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r broblem mewn digwyddiad a drefnir gan y cyngor sir i hyrwyddo'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cynllun newydd yw hwn i drefnu mapiau trafndiaeth (trenau, bysys) ledled Cymru sy'n integredig ac yn hawdd eu deall. Bydd y digwyddiad hwn am 10.00yb ddydd Gwener, 17 Gorffennaf – lleoliad i'w drefnu. Mae'n rhan o gynllun "Caru Ceredigion".
- (iii) Mae'r Cyng. Miles yn gweld fod marchnad awyr-ogored wedi ei drefnu ar ddau ddydd Iau'r bythefnos olaf o Fehefin yng nghwrt Neuadd y Dref. Balch gweld fod cynllun wedi dechrau i hyrwyddo stondinau'r Farchnad hefyd – mae tudalen *Facebook* a logo newydd ar gyfer y farchnad: "Cardigan Guildhall Market/ Marchnad Neuadd y Dref, Aberteifi".
- (iv) Arwyddion i'r Castell ac atyniadau eraill yn Aberteifi: Mae Rachel Thomas (swyddog y cyngor sir) wedi ailgydio yn ei gwaith gyda'r awdurdod yn dilyn cyfnod o salwch. Bydd hi'n cysylltu â staff Castell Aberteifi i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o drefnu arwyddion dilys.

(c) Y Cyng. Mark Cole (derbyniwyd e-bost yn ei absenoldeb):

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole bod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r llwybr rhwng Bro Teifi a Rhos-y-dre yn parhau hyd ganol Mehefin. Mae un gwrthwynebiad i'r gorchymyn i ailagor y llwybr wedi ei gofrestru gyda'r cyngor sir, a disgwyli'r i benderfyniad terfynol yn awr gael ei wneud gan yr archwilydd annibynnol yng Nghaerdydd.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Cole ei fod wedi derbyn cwynion am gyflwr wyneb y Maes Sgrialu; gofynnir i'r cyngor ei osod ar agenda cyfarfod yr is-bwyllgorau nesaf.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that the county council had agreed to abolish the clearway parking restriction at Rhodfa'r Felin and place the cheapest option available, by painting yellow lines, prohibiting parking along the highway thereat. 750 motorists had been fined by the Civil Enforcement Officers during the last year and many complaints had been received that the signage was not sufficient. The new system will be temporary for the next six months before becoming permanent.
- (ii) A Ceredigion Joint Community Safety Public Engagement Meeting between the county council and "Safe in Ceredigion" will be held at Penmorfa on 10 June, from 7.00-9.00pm.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cycle hoops were placed at Morgan Street for the use of cyclists; this meant that wheelchairs were unable to pass. Ceredigion County Council immediately moved the obstacles in order to ease the pathway for wheelchair users along the pavement.
- (ii) Traffic Management Consultative Committee, Thursday, 28 May: The county council is exploring the problem of A-boards/furniture/other items on the pavements in town which cause an obstruction to pedestrians, especially wheelchair users or persons with prams and pushchairs. Rather than forwarding letters to all businesses and shops in town, it was agreed to raise awareness of the problem at an event organised by the county council to promote the Active Travel (Wales) Act 2013 which is supported by the Welsh Government. This is a new project to organise travel maps (trains, buses) across Wales which are easy to follow. The event will take place at 10.00am on Friday, 17 July (venue to be decided). It is part of "Caru – Love Ceredigion".
- (iii) Cllr Miles noted that two open-air markets had been organised in the Guildhall courtyard for the end of June. It is also pleasing to note that the stalls within the market building have also been promoted – a new Facebook page and logo have been designed: "Cardigan Guildhall Market/ Marchnad Neuadd y Dref, Aberteifi".

(c) Cllr Mark Cole (received by e-mail in his absence):

- (i) Cllr Cole reported that the final public consultation on the re-opening of the footpath between Bro Teifi and Rhos-y-dre is on-going until mid-June. One objection to the re-opening order has been lodged with the county council and Cllr Cole now expects that the final decision on the application will be taken by an independent inspector in Cardiff.
- (ii) Cllr Cole reported that he had received complaints of concerns about the condition of the surface of the Skateboard Park; he asked for it to be put on the agenda of the next sub-committees meeting.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
47	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Pont Llechryd</i> Bridge. <i>Ar gau/closed 1/6/15 – 5/6/15. Ailagorwyd/reopened 2/6/15</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
48	CSC/CCC: (Lowri Edwards): <i>Ymgynghoriad ar amcanion y Cynllun Gwella. Improvement Plan – Objectives Consultation 2015-16</i>	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 7/5/15. Forwarded to members on 7/5/15.</i>
49	CSC/CCC (Claire Jones): <i>Map Diffiniol a Datganiad Hawliau Tramwy ar Gyfer Ardal Cyngor Sir Ceredigion (Gorchymyn Addasu Map Diffiniol Llwybr Troed 78/53 Bro Teifi).</i> Definitive Map and Statement of Public Rights of Way for the area of Ceredigion County Council (Footpath 78/53 Bro Teifi)	<i>Nodwyd. Noted.</i>
50	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Man chwarae Netpwl.</i> Netpool play area (Impact equality assessment)	<i>Disgwylir rhagor o wybodaeth oddi wrth Mr Arnold ynghlŷn â symud y cyfarpar chwarae o'r man chwarae yn Netpwl. Further information is expected from Mr Arnold regarding the transfer of play equipment from the Netpool play area.</i>
51	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Cyfarfod Blynyddol a drefnir gan Ddiogelwch Cymunedol Ceredigion.</i> Ceredigion Joint Community Safety Public Engagement Meeting, 10/6/15, Penmorfa, 7.00-9.00pm	<i>Cytunwyd anfon y ddogfen i'r aelodau. It was agreed to forward the document to all members.</i>
52	CSC/CCC (Gareth Rowlands): "Use It Or Lose It" European Rural Development Fund Scheme Proposal.	<i>Cytunwyd anfon y ddogfen i'r aelodau. It was agreed to forward the document to all members.</i>
53	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Ymateb Mrs Bernardine Rees yn dilyn cyfarfod y cyngor.</i> Hywel Dda University Health Board: Response from Mrs Bernardine Rees following the council meeting.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 7/5/15. Forwarded to members on 7/5/15.</i>
54	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Datganiad i'r wasg ynghlŷn â'r gwasanaethau iechyd newydd i Aberteifi.</i> Hywel Dda University Health Board: Press release regarding the Cardigan community new health services	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 28/5/15. Forwarded to members on 28/5/15.</i>
55	Menter Aberteifi: <i>Cyfarfod Blynyddol, 16/6/15 yn Neuadd y Dref.</i> Annual General Meeting, 16/6/15 at the Guildhall at 7.00pm	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 13/5/15. Forwarded to members on 13/5/15.</i>
56	<i>Gofal Mewn Galar: Llythyr o ddiolch am gyfraniad.</i> Cruse Bereavement Care: Letter of gratitude for donation under section 137.	<i>Nodwyd. Noted.</i>
57	Welch & Co: <i>Dogfenni y Cofrestrfa Tir i dir Golwg y Castell.</i> The Land Registry documents regarding land at Golwg y Castell showing the register of title on 31/3/15.	<i>Cadarnhad bod y tir wedi ei gofrestru. Confirmation that the Land Registry has now completed the registration of the Deed of Rectification in respect of the title plan.</i>
58	Cardigan Division St John Ambulance: <i>Dathliad 120 mlynedd y gangen yn Aberteifi.</i> Celebration of 120 years St John Cardigan Division: Request for venue to stage a small "past and present" exhibition in 2016.	<i>Disgwylir rhagor o fanylion cyn ceisio trefnu lleoliad. Further information is required before seeking a venue for the exhibition.</i>
59	Mr J. B. Evans, 24 Gotrel Estate: <i>Llythyr ynghlŷn â chais cynllunio.</i> Letter pertaining to the planning application A150287, Plot 3 Gotrel Estate.	<i>Trafodwyd tan eitem 8. Discussed under item 8.</i>

60	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys: Llythyr yn gofyn am gefnogaeth y cyngor yn erbyn awgrym y cyngor sir i godi tâl cau'r strydoedd i'r digwyddiad.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Letter requesting the support of the council against the proposed increase to road closure charges by the county council.	<i>Mae'r cyngor sir ar hyn o bryd yn ailystyried cynyddu'r tâl. Caiff y mater ei drafod gan y Cabinet.</i> The county council is reconsidering the increase in road closure charges. It was agreed to await the decision of the Cabinet on the matter before proceeding.
61	<i>Dathlu Gŵyl y Glaniad, Aberystwyth: Cais i bwyllgor Gefeillio Aberteifi/Trefelin i gydweithio.</i> Celebration of the 150 years of the Mimosa sailing to Patagonia: request for collaboration.	<i>Cytunwyd anfon yr ohebiaeth ymlaen at bwyllgor gefeillio Aberteifi/Trefelin.</i> It was agreed to forward the correspondence to the Aberteifi/Trefelin twinning committee.
62	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Mai.</i> Handyperson's May report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr. Chief Executive.*
Claire N. Jones: *Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.*
Head of Legal, Human Resources and Democratic Services.
Keith Morgan: *Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.*
Head of Assets and Transportation Services
Paul Arnold: *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.*
Head of Municipal and Environmental Service

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

(a) Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Mai.
Confirmation of 19 May Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Clive Davies that the minutes were correct.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 998(a): Cadarnhaodd y Cyng. Clive Davies bod lluniau Cyfarfod Sefydlu'r Maer wedi eu gosod ar y wefan.

Page 998(a): Cllr Clive Davies confirmed that the photographs of the Mayor's Installation Ceremony had been posted on the website.

Adroddiad y Bachan Deche:

Cytunwyd bod y cyngor yn prynu seddau newydd i gyfarpar ym maes chwarae Brenin Siôr 5ed. Mae'r cyngor wedi penderfynu yn y gorffennol nad oedd baneri i'w gosod ar y strydoedd eleni. Mae'r clerc wedi siarad â Mr Tim Lewis (Commercial Christmas) ar 2 Mehefin ynglŷn â phroblem gyda'r swits yng Nghaffi Sgwâr Finch. Addawodd Mr Lewis y byddai'r broblem yn cael ei datrys cyn y penwythnos. Mae'r basgedi blodau wedi eu harchebu gyda Mr David Trem.

Handyperson's Report:

It was agreed to purchase replacement seats for equipment at the King George 5th Playing Field. The council had agreed at a past meeting not to erect the bunting this year. The clerk has spoken to Mr Tim Lewis (Commercial Christmas) on 2 June regarding a problem with the trip-switch in Finch Square Café. Mr Lewis promised to solve the problem before the coming weekend. The summer hanging baskets have been ordered with Mr David Trem

(b) Enwebu Aelodau'r Is-bwyllgorau a Chyrff Allanol am 2015-16.
Nomination of Sub-committee Members and External Bodies, 2015-16.

Wedi trafod y newidiadau, cadarnhawyd y rhestr o'r aelodau sydd i wasanaethu ar is-bwyllgorau'r cyngor a chyrff allanol.

After making a number of amendments, the list of members to serve on council sub-committees and external bodies was confirmed.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Dyweddodd y Cyng. Neal Jones ei fod wedi derbyn cwyn am sbwriel wedi ei adael tu allan i'r Wine Bar. Cytunwyd codi'r mater yng nghyfarfod nesaf PACT.**
 - (b) **Gofynnodd y Cyng. Shimazaki am ganiatâd y cyngor i ddod â chyfaill o Siapan i gyfarfod yr is-bwyllgorau at 16 Mehefin. Caniatawyd ei gais gan y cyngor.**
 - (c) **Soniodd y Cyng. Catrin Miles bod trefniadau ar y gweill i wahodd Maer Brioude a chyfeillion i Aberteifi o 7-10 Awst, gan obeithio y byddant ar gael i fynychu'r Wyl Afon a Bwyd ar 8 Awst.**
 - (d) **Cadarnhaodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai'r llechen wedi ei hail-leoli yng Ngardd Brioude erbyn yr ymweliad uchod.**
- (a) Cllr Neal Jones reported that he had received complaints of rubbish deposited outside the Wine Bar. It was agreed to raise the matter at the next PACT meeting.
 - (b) Cllr Akira Shimazaki asked the council for permission to bring a guest from Japan to the next sub-committee of the council on 16 June. The request was welcomed by members.
 - (c) Cllr Catrin Miles mentioned that plans were under way to invite the Mayor of Brioude and other guests to Cardigan from 7-10 August. It is hoped that they will attend the Cardigan River & Food Festival on 8 August.
 - (d) Cllr Adams-Lewis added that the commemorative slate would be replaced in the Brioude Garden before the aforementioned visit.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.20yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.20pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date